

## **Adroddiad yn dilyn Ymgynghoriad**

**Teitl y prosiect:** Ysgol-Y-Wern - S106 Cynllun Bolardiau  
**Rhif Project:** CO16385

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 24 Gorffennaf 2017 a 7 Awst 2017. Cododd pedwar preswlydd sylwadau yn ymwneud â'r cynllun arfaethedig. Nid oedd unrhyw sylwadau a dderbyniwyd yn gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig. Roedd pob un o'r pedwar ymateb yn cefnogi, mewn egwyddor, y bwriad o gyflwyno'r bolardiau, fodd bynnag derbyniwyd sylwadau ychwanegol.

Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### Mater 1

*Fy mhrif bryder yw sut y byddai'r bolardiau'n effeithio ar werth amwynder fy eiddo, gan y byddent yn amgylchynu'r tu blaen. A fyddai'n bosibl cael gwybod mwy am y math o folard a fydd, o bosib, yn cael ei osod? Pe byddent yn folardiau concriid, elfennol, byddwn i'n bryderus iawn y byddai hyn yn effeithio ar werth amwynder fy eiddo. Fodd bynnag, pe byddai bolard mwy deniadol yr olwg yn cael ei ddefnyddio, ni fyddai gennyf unrhyw wrthwynebiad.*

### Ymateb

Mewn ymateb i'r ohebiaeth hon a dderbyniwyd, anfonwyd ateb i'r preswlydd a oedd yn nodi:

*"Gallaf gadarnhau mai'r bolardiau y byddem yn ystyried eu defnyddio ar gyfer y cynllun hwn, fyddai bolardiau "Glasdon Manchester", sy'n gyson â chynlluniau newydd yr ydym yn eu cyflwyno o amgylch y ddinas yng nghyffiniau ysgolion."*

Ar ôl i ni anfon ein hymateb i'r preswlydd, ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach ac felly tybir bod y preswlydd yn fodlon ar yr ymateb.

### Mater 2

Cododd un preswlydd fater yn ymwneud ag arwyddion yn nodi'r cyfyngiad cyflymder ger cyffordd Templeton Avenue, a nododd:

*Ar gyffordd y ffordd â Templeton Avenue ceir arwydd traffig sy'n nodi "Diwedd cyfyngiad 30mya". Ymddengys bod pobl yn anwybyddu'r geiriau 'diwedd' ac yn dal i'w ystyried fel darn 30mya (a chyflymach).*

*Rwy'n cynnig codi arwydd ffordd 20mya ychydig fetrau i lawr Llangranog Road a'r un peth wrth gyffordd Glendale Avenue.*

## Ymateb

Ar hyn o bryd, mae cynllun Gorchymyn Rheoli Traffig yn cael ei ddatblygu i gyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya ar nifer o strydoedd yn Ward Llanisien. Gallaf roi gwybod i chi fod cyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya ar hyd Llangranog Road yn rhan o'r cynnig hwn. Mae proses y Gorchymyn Rheoli Traffig yn broses gyfreithiol hir a all gymryd tua 6-9 mis i'w chwblhau. Ar ôl i'r cynnig gael ei basio drwy broses ffurfiol y Gorchymyn Rheoli Traffig, adeg y cam nesaf hwn y caiff yr arwyddion cyfyngiad cyflymder yn yr ardal eu hadolygu er mwyn gweld a oes angen unrhyw newidiadau ychwanegol i'r arwyddion cyfyngiad cyflymder presennol.

## Mater 3

Codwyd y pwyntiau canlynol gan un preswlydd:

*“A. Bod yr ysgol yn cydnabod cyfrifoldebau rhieni i sicrhau bod plant yn ddiogel, gan neilltuo tir ar gyfer parth diogel i ollwng plant ar dir yr ysgol,*

*B. Lledu'r ffordd, gan aberthu rhywfaint o dir yr ysgol a'r ardal siopa er mwyn osgoi tagfeydd traffig,*

*C. Cyfyngir mynediad ar gyfer preswylwyr a staff ysgol gan ddefnyddio bolardiau rhwng 8 a 5pm*

*Ch. Gallech chi helpu â chostau gosod tramwyfeydd lle nad oes rhai.”*

## Ymateb

Dyma ymatebion y Cyngor i'r pwyntiau a godwyd uchod:

A – Byddai neilltuo ardal o fewn tir yr ysgol i rieni ollwng a chasglu eu plant yn achosi perygl diogelwch ar y ffordd. Byddai disgyblion yn gorfod cerdded heibio i geir sy'n symud i mewn ac allan o leoedd parcio. Yn hanesyddol, bu achosion o ddisgyblion ysgol yn dioddef anafiadau ar dir yr ysgol ar ôl cael eu taro gan gerbydau. O ganlyniad, argymhellir bod gan ddisgyblion fynediad ar wahân ar dir yr ysgol, a hefyd y dylid gwahardd rhieni rhag gyrru i mewn ar i dir yr ysgol. Pe byddai lle parcio yn cael ei ddarparu ar dir yr ysgol, byddai hyn yn gosod cysail a allai annog ysgolion eraill i gynnig lle i barcio ar eu safleoedd. Am y rhesymau a nodir uchod, nid yw'r Cyngor bellach yn cefnogi manau gollwng a chasglu ar dir ysgol.

B – Byddai addasiadau i'r Briffordd yn cynnwys costau adeiladu sylweddol; mae'r cynllun hwn yn gynllun bolardiau cost isel, nid oes unrhyw gyllid ar gael ar hyn o bryd i wneud newidiadau sylweddol i gynllun y Briffordd.

C – Mae'n ofynnol cael Gorchymynion Rheoli Traffig er mwyn cefnogi'n gyfreithiol y weithred o gau ffordd, boed hynny am gyfnod amhenodol neu ar adegau penodol o'r dydd. Byddai'n ofynnol hefyd cyflogi staff er mwyn sicrhau mynediad i breswylwyr gyda'r cyfyngiadau hyn. Ni fyddai cyflwyno bolardiau ar y briffordd er mwyn cyfyngu mynediad yn ystod rhai oriau penodol yn ddewis ymarferol.

Ch – Fel y nodwyd uchod, nid oes digon o gyllid ar gael i ystyried newidiadau i gynllun y Briffordd. Efallai y bydd preswylwyr yn dymuno gwneud cais am Drwydded Croesi Cerbydau, mae ffurflen gais ar gael ar wefan y Cyngor. Cyfrifoldeb tîm gwahanol o fewn y gwasanaeth hwn yw cyrbau isel / tramwyfeydd. Byddai'r tîm hwn yn ymchwilio i unrhyw gais i ostwng cyrbau fesul achos.

#### Mater 4

Cododd un preswlydd y mater canlynol yn ymwneud â pharcio ar Bethel Place:

*“Ar ôl codi'r bolardiau, bydd lefel y traffig ar ein ffordd bengaead yn cynyddu ac nid wyf yn credu eich bod chi'n ymwybodol bod y fflatiau hyn ar gyfer pobl 50 oed a hŷn a phobl sy'n llai abl yn gorfforol, ac yn aml mae meddygon ac ambiwlansiau angen mynediad, ac fel sydd wedi digwydd o'r blaen, maent wedi methu.*

*Rwy'n ysgrifennu ar ran y preswylwyr a minnau (y 10 fflat) i ofyn i chi ystyried o ddifri mynd ati i baentio llinellau melyn dwbl ar ein ffordd bengaead, ac felly, ein helpu ni i roi terfyn ar barcio anghyfreithlon a cham-drin geiriol dyddiol.”*

#### Ymateb

Mae'r cynllun hwn yn gynllun bolardiau cost isel nad yw'n cynnwys cyflwyno cyfyngiadau parcio, gan y byddai'n ofynnol dilyn proses Gorchymyn Rheoli Traffig gyfreithiol hir er mwyn gallu gwneud hynny. Gallaf roi gwybod i chi fod Parth Diogelwch Ysgol wedi'i gynnig ar gyfer Ysgol y Wern sydd ar hyn o bryd yn rhan o raglen y dyfodol ar gynlluniau Diogelwch ar y Ffyrdd mewn ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno mesurau arafu traffig, croesfan i gerddwyr a chyfyngiadau parcio. Gweithredir y cynllun hwn ar y safle pan fydd cyllid ar gael yn y dyfodol. Yn ystod y cam hwn y caiff y cyfyngiadau parcio presennol yr ardal eu hadolygu i weld a oes angen unrhyw gyfyngiadau parcio ychwanegol.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o'r cyrbau ar hyd y llwybr cerdded drwy Bethel Place wedi'u gostwng yn ffurfiol er mwyn galluogi preswylwyr i gael mynediad at eu lleoedd parcio oddi ar y stryd. Mae Deddf Rheoli Traffig 2004 yn sefydlu nifer o droseddau, ac mae parcio ar draws croesfan wedi'i gostwng yn drosedd sifil benodol sy'n galluogi Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor i ymdrin â nhw drwy gyflwyno tal cosb benodedig. Gellir adrodd cwynion penodol yn ymwneud â cherbyd penodol i'r Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil sydd ar gael ar Caerdydd 20872088.


#### Argymhelliad:

O ran yr adborth a dderbyniwyd, ac yn dilyn cefnogaeth fwyafrifol gan Aelodau'r Ward Leol, argymhellir bwrw ymlaen â'r cynllun fel y'i hysbysebwyd.

**Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnis rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.**



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



**Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.**



Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy of the post-consultation report.